Gyfeillion

Roedd dyfodiad y ffydd Gristnogol a'i dylanwad yn ddim llai na chwyldro. Gellid cyfeirio at y datguddiad yn y geni gwyrthiol neu ei ddisgleirdeb wrth iddo dyfu ond gadewch inni ganolbwyntio ar weinidogaeth Crist. Rhyw dair blynedd a hanner oedd parhad honno ond mae ei dylanwad wedi ymestyn dros ddwy fil a mwy o flynyddoedd.

Mae dirywiad Cristnogaeth yng Nghymru wedi bod yn frawychus yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ond rhaid gweld hynny yng nghyd-destun y cynyddu syfrdanol a fu yn nifer Cristnogion mewn cynifer o wledydd. Wedi'r cyfan Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf o ran nifer a dylanwad yn y byd.

Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'n gallu i fagu perthynas â chrefyddau a chredoau gwahanol i'n heiddo ni. Cwestiwn dadleuol iawn gan ein bod wedi methu dros y ganrif ddiwethaf i gydweithio a dod at ein gilydd fel rhai sy'n perthyn i'r un traddodiad.

Wrth gwrs yr her fwyaf yw sut i ddygymod â thwf crefyddau eraill yn ein cymunedau a'r tensiynau sy'n codi o ran cydbwysedd cymunedol a chanlyniadau mewnlifiad. Gyda llaw, bach iawn o gyfraniad at hyn yw dyfodiad y mewnlifiad dros y sianel.

A beth am ein hymagwedd at Iddewiaeth o gofio erchylltra'r Holocaust ar y naill law a hil-laddiad Gasa ar y llall? A hynny heb ystyried erlyn a chroeshoelio Iesu.

Yr esboniad am y rhagymadrodd (hirfaith!) uchod yw gosod y newidiadau yma ym Methlehem Newydd yn eu cyd-destun er eu bod yn brofiad emosiynol i rai. Mater o agor y drws i'r gymuned yn hytrach na'i gau i ganiatáu inni addoli yw hyn. Perthynas wahanol gyda ein cymdogion; cysylltiad newydd a gwahanol i lawer gyda'r capel, gan ddiogelu ei bwrpas sylfaenol i addoli.

Diolch o galon i'r gwirfoddolwyr sydd wedi caniatáu i'r esblygiad hwn ddigwydd ac i'r ffyddloniaid am gynnal y traddodiad gan ganiatáu i'r naill a'r llall gyd-fodoli yn gysurus â'i gilydd. Trueni nad yw pob newid yn broses mor esmwyth. Mae newid wedi bod yn brofiad i lawer ohonom gan gynnwys fi. Mae oedran ac iechyd yn golygu na allaf gyflawni gweinidogaeth draddodiadol. Galluogodd grant imi drosglwyddo i fod yn Rheolydd y Prosiect heb gost i'r capel a gofynnodd y diaconiaid imi barhau yn y rôl honno eleni a chadarnhawyd hynny mewn Cwrdd Eglwys.

Bylchwyd ein rhengoedd eto gan angau. Dymunwn fendith Duw ar y rhai fu mewn galar a chofiwn ag anwyldeb am y rhai a gollwyd.

Colled enfawr fu penderfyniad Cynwyl ac Eilir i symud i Gaerdydd i fod yn agosach at Non a'r teulu. Dymunwn yn dda iddynt a gwerthfawrogwn yn fawr y cyfan a gyflawnwyd ganddynt.

Cofiwch 'Ymlaen mae Canaan'.

Yn gywir,

RGT